YSGOL LLANFYLLIN

16eg Mai 2024

Annwyl Riant / Gofalwr

**Cyf: Adroddiad Arolwg Estyn**

Yn dilyn arolygiad o'r ysgol ym mis Mawrth, mae adroddiad Estyn ar gyfer Ysgol Llanfyllin yn cael ei gyhoeddi heddiw. Mae'r adroddiad yn datgan:

*'Ers ei ffurfio yn 2020, mae arweinwyr wedi llwyddo i sefydlu cymuned glòs a datblygu ethos o 'deulu' Ysgol Llanfyllin, ar sail bod yn un ysgol. Mae staff yn cydweithio'n dda â'i gilydd i ddeall anghenion lles disgyblion ac, yn benodol, yn darparu'n addas ar gyfer y rhai mwyaf bregus. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda a'u bod yn ddiogel o ganlyniad i'r ymagwedd hon'*

*'Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth sicr a gofalus, sydd wedi'i thanategu gan ddiben moesol cryf. Ochr yn ochr â'r uwch dîm arweinyddiaeth, maent yn parhau i ddatblygu diwylliant ysgol pob oed. Mae arweinwyr wedi creu diwylliant diogelu cryf ar draws yr ysgol ac wedi sicrhau bod disgyblion yn teimlo'n ddiogel a'u bod yn cael eu cefnogi, yn gyffredinol.'*

Mae llawer i'w ddathlu drwy gydol yr adroddiad, yn enwedig mae Estyn yn cydnabod cryfder y gofal, y cymorth a'r arweiniad a gynigir i ddisgyblion yn Ysgol Llanfyllin:

*'Mae ethos teuluol Ysgol Llanfyllin wrth wraidd pob agwedd ar ei darpariaeth les. Mae staff yn cydweithio â'i gilydd i sefydlu dealltwriaeth ddofn o anghenion lles disgyblion, yn enwedig y rhai mwyaf bregus a difreintiedig.'*

Dyma'r arolygiad cyntaf o Ysgol Llanfyllin fel ysgol pob oed a dylai cymuned yr ysgol gyfan fod yn falch iawn o'r hyn sydd wedi'i gyflawni ers ei sefydlu yn 2020. Ni fyddwch yn synnu o wybod ein bod gyda'n gilydd yn parhau'n uchelgeisiol ar gyfer gwelliant pellach ac y byddwn yn gweithio'n agos gyda'r awdurdod lleol i fynd i'r afael ag unrhyw argymhellion yn yr adroddiad.

Mae copi o'r adroddiad llawn a'r crynodeb ar gael ar wefan Estyn Ysgol Llanfyllin | Estyn (llyw.cymru), neu fel copi papur gan yr ysgol ar gais. Gobeithiaf y byddwch yn darllen yr adroddiad llawn sy'n manylu ar y llu o feysydd llwyddiannus yng ngwaith yr ysgol, ac y byddwch mor falch â ni gyda'r canlyniad.

Diolch am eich cefnogaeth barhaus.

Yr eiddoch yn gywir,

Dewi Owen


**Cysylltwch / Contact**

**Llanfyllin, Powys SY22 5BJ**

Ffôn / Telephone: (01691) 648391

office@llanfyllin.powys.sch.uk

www.llanfyllin.powys.sch.uk

**Tîm Arweinyddiaeth / Leadership Team**

**Pennaeth / Headteacher:**

Mr Dewi Owen

**Dirprwy Bennaeth / Deputy Headteacher:**

Mr Llŷr Thomas

**Penaethiaid Cynorthwyol/ Assistant Headteachers**

Mrs Jenna Graham

Mrs Ann Roberts

Mrs Sioned Vaughan

**Rheolwr Busnes/Business Manager**

Mrs Sarah Hunter

**CADY/ALNCO**

Mrs Rhiannon Molyneux